# Llawlyfr Rhieni

2025-26



# Croeso i Ysgol Edern

Annwyl Rieni / Ofalwyr,

Rydym yn croesawu chi a’ch plentyn i Ysgol Edern. Tra bydd eich plentyn dan ein gofal fe wnawn ein gorau i sicrhau y bydd yn hapus, yn ddiogel ac yn cael yr addysg o’r safon uchaf.

Mae'r ysgol hon yn gymuned hapus a chartrefol lle’r ymdrechir i hyrwyddo twf ysbrydol a moesol y plant. Yma mae cyswllt agos gyda phob teulu a gweithredir polisi o ymateb i broblemau neu anawsterau drwy eu trafod gyda'r rhieni.


Hoffwn weld bob plentyn yn edrych yn ôl ar ei blentyndod fel cyfnod hapus sydd wedi bod yn sylfaen gadarn i’w fywyd wrth iddo ef/hi ddatblygu’n ddinesydd y dyfodol.

Partneriaeth yw addysg rhwng yr ysgol a'r rhieni er budd ein plant. Mae ein dylanwad a’r gefnogaeth yn amhrisiadwy yn natblygiad cymdeithasol ac addysgol eich plentyn. Hoffwn weld y bartneriaeth yma gweithio’n dda a bod anghenion y disgybl yn flaenoriaeth gennym ac yn codi uwchlaw popeth arall.

**Ilan Williams**

PENNAETH






> ***‘Dysgwn fel teulu***
> ***Yn yr ysgol hon.***
> ***Tyfwn fel cymuned***
> ***Yn Hapus a Llon.’***

# Manylion yr Ysgol

**Cysylltu:**

Ysgol Edern,
Lôn Rhos,
Edern,
Pwllheli.
Gwynedd. LL53 8YW

Ffôn: 01758 720272

E-bost: ilan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru

---

**Statws:**

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod / Iau) yw'r ysgol hon.

Mae'n ysgol ddyddiol, dwyieithog, gyd-addysgol.

---

**Staff:**



**Ilan Williams**
Pennaeth
Athro CA2



**Sian Teleri Hughes**
Athrawes Dysgu Sylfaen



**Sioned Tudor**
Athrawes CA2
CADY



**Glesni Owen**
Cymhorthydd Dysgu



**Mary Hughes**
Cymhorthydd Dysgu



**Amanda Lloyd**
Uwch-Gymhorthydd Dysgu



**Eira Williams**
Cymhorthydd Dysgu



**Carol Williams**
Gofalwraig



**Astrid Williams**
Cogyddes

# Corff Llywodraethol

## Cadeirydd:

Mrs Kaylee Scott

## Cymunedol:

Ms Anna Hughes
Mr Gareth Wright

## Rhieni:

Mrs Kaylee Scott
Mrs Sioned Pearson
Mrs Luned Williams

## Cyngor Tref:

Ms Caren Jones

## Awdudrod Addysg Lleol:

Cyng. Gareth Jones
Mr Iorwerth Llywelyn

## Athrawon:

Mrs Sian Teleri Hughes

## Pennaeth:

Mr Ilan Williams

## Clerc:

Mrs Elen Jones

# Yr Ysgol

## Disgrifiad o'r Ysgol

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod/Iau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd addysgol.
Mae tri dosbarth yn yr ysgol a addysgir fel a ganlyn:

Dysgu Sylfaen (Cwmistir a Porthdinllaen): Mrs Sian Teleri Hughes
Blwyddyn 3 a 4 (Rhosgor): Mrs Sioned Tudor
Blwyddyn 5 a 6 (Porth Ysgaden): Mr Ilan Williams

## Trefniant y Dosbarthiadau Medi 2024

| | M | D | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dysgu Sylfaen<br>Mrs Sian Teleri Hughes | X | X | X | X | | | | |
| Blwyddyn 3 a 4<br>Mrs Sioned Tudor | | | | | X | X | | |
| Blwyddyn 5 a 6<br>Mr Ilan Williams | | | | | | | X | X |

## Polisi Derbyn

Derbynnir plant yn llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed ac am 2 awr y bore yn 3 oed. Mae hyn yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg. Dylai rhieni sydd yn dymuno cofrestru eu plentyn yn yr ysgol gysylltu â'r Swyddog perthnasol yn yr Awdurdod Addysg yng Nghaernarfon, sef gyda Owain Dewi Hughes, Swyddog Gwybodaeth, Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. Y rhif ffôn yw 01286 679904. Ar ddiwedd blwyddyn chwech bydd y plant yn trosglwyddo i Ysgol Botwnnog, os mai dyna yw eich dymuniad. Cyflwynir gwybodaeth i chi mewn da bryd am yr ysgol hon ac fe drefnir cyfle i'r plant dreulio dau ddiwrnod yno yn ystod eu blwyddyn olaf yn Ysgol Edern. Gwahoddir chwi fel rhieni i ymweld â'r ysgol a chyfarfod â Pennaeth yr ysgol Ms. Catrin Pritchard.

## Tymor

**Hydref 2025** 1 Medi 2025 – 19 Rhagfyr 2025
**Gwanwyn 2026** 5 Ionawr 2026 – 27 Mawrth 2026
**Haf 2026** 13 Ebrill 2026 – 20 Gorffennaf 2026

## Gwyliau

27 Hydref 2025 - 31 Hydref 2025 (Hanner-Tymor)
22 Rhagfyr 2025 - 2 Ionawr 2026 (Gwyliau'r Nadolig)
16 Chwefror 2026 - 20 Chwefror 2026 (Hanner-Tymor)
30 Mawrth 2026 - 10 Ebrill 2026 (Gwyliau'r Pasg)
4 Mai 2026 (Calan Mai)
25 Mai 2026 - 29 Mai 2026 (Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf 2026 - 31 Awst 2026 (Gwyliau'r Haf)

## Presenoldeb ac Absenoldebau

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'n rheolaidd. Yn unol â rheolau'r Cynulliad, mae'n rhaid i bob ysgol wahaniaethu rhwng absenoldeb awdurdodedig (salwch, ymweld â'r doctor a.y.y.b.) ac absenoldebau heb awdurdod. Gofynnwn i chwi adael i'r ysgol wybod am bob absenoldeb drwy nodyn, alwad ffôn, e-bost neu drwy'r ffurlfen ar ein gwefan. Er diogelwch, bydd yr ysgol yn ffonio'r cartref ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb os na dderbynnir neges.

<u>Absenoldebau Awdurdodedig</u>
Mae hyn yn cynnwys salwch neu apwyntiad meddygol. Mae modd hefyd gofyn am hyd at ddeng niwrnod o wyliau mewn un flwyddyn ysgol. Mae'r Pennaeth yn ystyried y ceisiadau hyn ar sail unigol. Rydym yn annog rhieni'n gryf i beidio â thynnu eu plant allan yn ystod y flwyddyn ysgol gan fod parhad yn bwysig i sicrhau dysgu effeithiol.

<u>Absenoldebeau Anawdurdodedig</u>
Cofnodir unrhyw absenoldebau heb eu hesbonio fel rhai anawdurdodedig. Mae cofnodion am bresenoldeb yn cael ei gadw a'i fonitro gan yr Awdurdod Addysg Lleol.

Mae gan y Swyddog Llês Addysg yr awdurdod hawl i ymweld â chartrefi unrhyw rieni yr ystyrir bod ffigyrau presenoldeb eu plentyn yn bryder i'r Ysgol a'r AALL.

Presenoldeb Ysgol Edern yn 2024-25
Presenoldeb = 94.17%
Targed = 95%

## Oriau Dysgu

(heb gynnwys, cofrestru gwasanaeth ac egwyl)
Mae'r oriau dysgu yn 23.5 awr yr wythnos i'r plant yn CA2, 21.5 awr yr wythnos i'r plant yn y CS a 10 awr i'r plant Meithrin.

Mae sesiynau y bore rhwng 9:00am — 12.15pm
9:00am — 11.00am i'r plant Meithrin
Sesiwn y prynhawn rhwng 1:15pm – 3.15pm o'r gloch

Dymunwn eich atgoffa na ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.15am i'r clwb brecwast a 8.50am fel arall. Dylai'r plant gyrraedd yr ysgol yn brydlon am 8.50y.b. Fe fyddant yn cael eu cofnodi fel "hwyr" os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.00y.b.

Nid oes hawl gan blentyn i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb oedolyn i'w gyrchu. Bydd yr ysgol yn parhau i fod yn gyfrifol am bob plentyn hyd at 3.25y.h. sef 10 munud wedi'r ysgol gau.

## Cau Mewn Argyfwng

Pan fydd argyfwng (ee dim gwres neu y tywydd yn ddrwg) byddwn yn gorfod cau yr ysgol ar fyr rybudd pan deimlwn fod diogelwch y plant mewn perygl pe cedwir yn yr ysgol hyd ddiwedd y prynhawn, yna gallwn wneud y canlynol:-
**Plant y Bws** - Gofynnwn i'r bws i ddod yn gynt a chysylltu gyda rhieni. Os na fydd neb adref byddwn yn cadw'r plentyn yn yr ysgol i chi drefnu i'w godi.
**Pawb Arall** - Byddwn yn anfon neges i bob rhiant i drefnu i gasglu'r plant.

## Amser Chwarae

Bydd y plant yn cael chwarae ar yr iard neu ar y cae dibynnu ar y tywydd. Maent yn aros yn y dosbarthiadau yn ystod amser chwarae gwlyb lle bydd amrywiaeth o weithgareddau ar eu cyfer. Mae amser chwarae yn y bore rhwng 10.30-10.50yb. Yn ystod y sesiwn bore caiff plant y Cyfnod Sylfaen lefrith neu ddŵr a ffrwyth fel byrbryd a caiff plant CA2 ffrwyth a dŵr. Mae croeso i'r plant ddod a ffrwyth eu hunain. Ni chaniateir fferins, siocled na chreision. Mae bob plentyn yn derbyn potel ddŵr. Dim ond dŵr ganiateir yn y poteli.

## Cinio Ysgol

Mae cinio iachus a maethlon ar gael yn yr ysgol bob diwrnod O fis Medi 2023 ymlaen bydd cinio ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i ddarparu cinio am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Mae Ysgol Edern yn rhan o Gynllun Ysgol Iach Gwynedd felly rydym yn hyrwyddo bocs bwyd iachus i'r plant sydd ddim yn cynnwys fferins na diod ffisi / blas.

## Trefniadau cyrraedd a gadael yr ysgol

**Yn y bore**
Bydd y bws yn cyrraedd gyda'r plant ac yn mynd ar yr iard yn y bore neu yn gyrru am i lawr yn ddibynnol ar y bws a gaiff ei yrru gan y cwmni. Ni chaniateir i neb ddod ar yr iard hyd nes bydd y bws wedi gadael. Bydd drysau'r ysgol yn agor am 8.50 y bore. Rydym yn annog y plant i fod yn annibynnol o oedran ifanc felly bydd y rhieni yn gadael y plant wrth giat yr ysgol a bydd y plant yn dod i mewn a rhoi eu côt a'u bagiau ar y peg ac yn mynd i'r dosbarthiadau nes bydd y gloch yn canu am 9.00. Mae rhai plant yn aniscr yn ystod y flwyddyn gyntaf yn yr ysgol felly mae croeso i'r rhieni ddanfon eu plant at y drws. Fel arfer erbyn iddynt ddod i'r ysgol yn llawn amser maent yn ddigon hyderus i ddod i mewn eu hunain. Gofynnwn yn garedig nad yw rhieni ac aelodau o'r teulu yn gyrru i lawr tuag at giatiau yr ysgol ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd am resymau iechyd a diogelwch.

**Diwedd y Dydd**
Ar ddiwedd dydd bydd plant y bws yn mynd ar y bws gyntaf o dan arweiniad oedolyn. Wedi i'r bws fynd bydd y plant yn cael eu rhyddhau o'r dosbarthiadau wrth ddrysau'r dosbarthiadau, ble gallwch gasglu'r plant.

## Cymdeithas Rieni / Ffrindiau'r Ysgol

Mae Cymdeithas Rieni wedi'i sefydlu yn Ysgol Edern ac mae croeso i'r holl rieni gyd-weithio i ymgyrraedd at yr un nôd sef codi arian ar gyfer adnoddau ac addysg eu plant, ac i ddod i adnabod rhieni eraill. Gobeithiwn fel ysgol weld y rhieni i gyd yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

## Rheolau'r Ysgol

- Bydd yr ysgol yn cychwyn yn brydlon am 9.00. Nid yw'r ysgol yn gyfrifol o unrhyw blentyn sy'n cyrraedd yr ysgol cyn 8.50 o'r gloch.
- Rydym yn dymuno i'r rhieni gysylltu cyn 9 o'r gloch os yw eu plentyn yn absennol. Drwy hyn gallwn geisio sicrhau bod y plant i gyd wedi cyrraedd yr ysgol yn ddiogel.
- Bydd yr ysgol yn gorffen am 3.15.
- Gan ein bod yn perthyn i Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ni chaniateir dod a fferins, creision na diod heblaw am ddŵr i'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn gweithio'n gydwybodol i sicrhau diogelwch y plant tra ar dir yr ysgol neu dan ofal athro/athrawes oddi allan i'r ysgol.
- Mewn achos o ddamwain neu salwch yn ystod oriau'r ysgol, gwneir pob ymdrech i gysylltu a'r rheini neu warchodwyr os bydd angen. Mewn achosion brys lle methir a chysylltu, bydd y pennaeth yn gweithredu yn ôl y galw.
- Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i eiddo personol y disgyblion. Ni chaniateir teganau yn yr ysgol.
- Rydym yn disgwyl i bob plentyn ymddwyn yn gwrtais a chymwynasgar tuag at unigolion o fewn yr ysgol. Rydym eisiau cadw enw da'r ysgol er mwyn i aelodau'r cyhoedd a sefydliadau rydym yn ymweld â hwy i barhau i ddiolch a gwerthfawrogi ymddygiad y plant.
- Rydym yn disgwyl i bob plentyn barchu eiddo'r ysgol ac eiddo plant eraill.
- Os yw plentyn angen unrhyw feddyginiaeth o fewn oriau'r ysgol bydd angen i'r rhiant lenwi ffurflen ganiatâd. Mae'r ffurflen ar gael gan y pennaeth, neu ar ein gwefan.
- Os yw eich manylion cyswllt yn newid rydym yn gofyn wrthych adael i'r ysgol wybod yn syth.
- Bydd rhaid hysbysu'r ysgol os oes unrhyw newid mewn trefniant casglu'r plant o'r ysgol



## Iechyd Diogelwch

Mae diogelwch y disgyblion, y staff ac ymwelwyr yn flaenoriaeth genym yn Ysgol Edern. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau diogelwch yr adeilad ac eiddo'r ysgol. Mae asesiadau risg wedi eu paratoi i sicrhau fod gweithgareddau'r ysgol mor saff a diogel a phosib. Bydd asesiadau risg yn cael eu paratoi cyn unrhyw drip tu allan i ffiniau'r ysgol.

## Damweiniau a Meddyginiaethau

Bydd staff yr ysgol yn gofalu am unrhyw blentyn sydd yn mynd yn sâl neu'n cael damwain a'i gysuro. Mae gan bedwar aelod o staff yr ysgol gymhwyster Cymorth Cyntaf fel ein bod yn gallu sicrhau bod yna staff cymwysiedig ar dir yr ysgol bob amser. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol. Bydd unrhyw ddamwain yn cael ei gysidro a'i asesu gan y Cymorthydd Cyntaf ac yna bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhiant i gasglu'r plentyn os fydd angen. Mae'n hanfodol bwysig bod yr ysgol yn cael gwybod yn syth os yw eich manylion cyswllt yn newid. Bydd cofnod o bob damwain yn cael ei gadw ac mi fydd staff yr ysgol yn ffonio adref i egluro beth ddigwyddodd. Mewn achosion brys lle na ellir cysylltu gyda'r rhieni bydd y Cymorthydd Cyntaf a'r Pennaeth yn ymateb a gweithredu yn ôl y galw.

## Ethos ac Ymddygiad

Mae'r ysgol yn mynnu ymddygiad bositif a chadarnhaol gan holl blant yr ysgol ac yn gweithredu egwyddorion Webster Stratton ar draws yr ysgol. Credwn bod hyn yn greiddiol er mwyn cyflwyno addysg orau a sgiliau bywyd positif i'r plant. Os nad yw plentyn yn cyd-ymffurfio a rheolau a disgwyliadau'r ysgol byddwn yn dilyn canllawiau o fewn y Polisi Ymddygiad. Rydym yn derbyn ymateb cadarnhaol iawn gan sefyldiadau mae'r plant yn ymweld â nhw yn gyson gan eu bod yn ymddwyn yn fanesol a chwrtais gyda'i gilydd a gydag oedolion bob amser.

## Trefn Gwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu ar ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r mwyafrif o gwynion yn ganlyniad camddealltwriaeth neu gyfathrebiad gwael. Os ydym yn benderfynol o ddatrys anhawster a fydd yn bodloni'r naill ochr a'r llall, credwn fod angen dealltwriaeth lawn o'r trefniadau ar gyfer gwneud yn ogystal ag agwedd gadarnhaol tuag at wella'r sefyllfa. Dylai rhiant sy'n dymuno cwyno am drefniadaeth neu gynnwys y cwricwlwm ddilyn y drefn ganlynol: (a) Cysylltu â'r pennaeth. Gwneir ymchwiliad i'r achos gan y Pennaeth (neu aelod o'r staff a enwebir gan y Pennaeth) ac fe ymatebir i'r rhiant yn uniongyrchol.

(Dylai mân-gwynion gael eu trafod â'r athro/athrawes unigol. Os na fydd rhiant yn fodlon â'r ymateb, yna dylid cysylltu â'r Pennaeth.) (b) Os na fydd rhiant yn fodlon â'r ymateb, dylid ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethol. Gwneir ymchwiliad gan aelodau Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol ac fe ymatebir ganddynt.

## Amddiffyn Plant

Mae'n ofynol i'r ysgol hon ddilyn canllawiau clir a phendant o'r Ddeddf Diogelu Plant.Mae yna ddyletswydd ar yr athrawon a staff ategol adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeleustod a mynegi eu pryderon y syth.

## Sut Mae'r Ysgol Yn Diogelu'r Plant?

Amddiffyn Plant: DBS cyfredol gan bob aelod o staff, lywodraethwyr ac ymwelwyr cyson ee. athro cerdd.

Pob ymwelydd arall yn cael ei oruwchwylio 100%

Un prif fynedfa, drysau eraill wedi cau o'r tu allan.

Pob ymwelydd, heblaw rhieni, yn arwyddo i mewn a gwisgo bathodyn amlwg.

Goruchwylio cymhareb addas amser chwarae a chinio.

Cofnod yn cael ei gadw o gonsyrn am blant drwy system MyConcern.

Cyfeirio plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol os oes amheuaeth.

Holl staff yn ymwybodol o'r polisi ac wedi pasio hyfforddiant Amddiffyn Plant.

Staff addysgu wedi hyfforddi a pholisi Defnyddio Grym Rhesymol.

## Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant

**Person dynodedig Amddiffyn Plant** –

- Mr Ilan Williams Rhif ffôn cyswllt- 01758 720272

**Aelodau'r Llywodraethwyr-**

- Mrs Kaylee Scott Rhif ffôn cyswllt- 07890611202

**Aelod o'r Awdurdod-**

- Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg Rhif ffôn cyswllt – 01758 704044
- Tîm Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol Rhif ffôn cyswllt- 01758 704 455

**Uwch swyddog dynodedig yn yr awdurdod lleol -**

- Bethan Helen Jones - 07977504344

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt yn yr awdurdod neu'r llywodraethwyr os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.

Ceir mwy o wybodaeth gan gynnwys copi o'r Polisi Amddiffyn Plant a gwybodaeth am gadw'n saff i blant gan y Pennaeth yn yr Ysgol

## Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol rydym yn falch ohoni.

Rydym yn annog pob rhiant i ysgrifennu enw eu plentyn ar bob dilledyn ac eiddo personol.

Gellir archebu'r wisg ysgol gan gwmni Lake Digital ac yn siop Pwyth Pistyll ym Mhwllheli.

Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion wisgo trowsus, trowsus cwta, neu sgert las tywyll (navy blue) i gyd-fynd â'r wisg uchod.

| Gwisg | Archebu |
|---|---|
| Crys Chwys<br>(gyda logo'r ysgol) | Brodwaith / Pwyth Pistyll / Lake Digital |
| Hwdis Addysg Gorfforol*<br>(gyda logo'r ysgol) | Brodwaith / Lake Digital |
| Siwmper<br>(gyda logo'r ysgol) | Brodwaith / Pwyth Pistyll / Lake Digital |
| Cardigan<br>(gyda logo'r ysgol) | Brodwaith / Pwyth Pistyll / Lake Digital |

## Gwisg Addysg Gorfforol

*Caiff y plant wisgo eu hwdis yn ystod cyfnod ymarfer corff neu ar y dyddiau pan maent yn cael gwersi Addysg Gorfforol. Nid ydym yn dymuno i'r plant wisgo eu hwdis yn lle eu siwmperi ysgol sy'n rhan o'u gwisg swyddogol.

Caniateir i'r disgyblion wisgo crys t a throwsus cwta o'u dewis i wneud ymarfer corff.

## Cyngor Ysgol

Bydd y disgyblion yn ethol aelodau o'r Cyngor Ysgol yn flynyddol. Eu gwaith yw sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a'i weithredu arno.

Yn Ysgol Edern mae'r disgyblion yn cael cyfle i:

- Gynnig syniadau ar sut i wella eu hamgylchfyd dysgu.
- Roi barn a sylwadau am fywyd yr ysgol.
- Gyfrannu at wneud yr ysgol yn le hapusach.
- Sicrhau fod yr ysgol yn sefydliad plentyn canolog

## Perthynas Ysgol a'r Cartref

Rydym yn Ysgol Edern yn credu'n gryf mewn perthynas hapus ac iach rhwng yr ysgol a'r cartref. Gobeithiwn feddwl y gallai unrhyw riant deimlo y gallai ddod i'r ysgol i fynegi unrhyw bryder ynglyn ag addysg neu hapusrwydd eu plant. Gan fod y pennaeth yn dysgu gofynir i chwi ffonio'r ysgol i wneud apwyntiad a byddwn yn eich croesawu am sgwrs pan mae hi'n ymarferol bosibl. Mae datblygiad addysgol eich plentyn yn dibynnu ar pa mor effeithiol ydy'r cyd-weithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae hi'n broses sy'n gweithio y ddwy ffordd. Disgwyliwn i'r rhieni dreulio amser yn darllen a helpu y plant gyda unrhyw waith cartref neu waith ychwanegol a drefnwyd gan yr ysgol er mwyn datblygu y plentyn ymhellach er lles yr unigolyn.

## Gwaith Cartref

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod o dro i dro i blant Blwyddyn 3-6 yr ysgol ac yn achlysurol i blant y Cyfnod Sylfaen. Ceisiwn osod gwaith cartref sydd yn atgyfnerthu gwaith y dosbarth neu sy'n ymwneud â thema'r dosbarth. Mae'n fodd o sicrhau bod plentyn yn meithrin yr hyder i weithio'n annibynnol tu allan i sefyllfa'r dosbarth/ ysgol. Mae'n gyfle i'r rhieni gymryd rhan weithredol yn addysg y plant. Dylai pob gwaith cartref fod yn adlewyrchiad o ymdrech gorau pob plentyn. Nid yw'r athrawon yn fodlon derbyn gwaith blêr sy'n îs na gallu'r plentyn a bydd disgwyl i'r plentyn ail wneud y gwaith.

## Cynllun Darllen gyda fi!

Mae'r ysgol yn ceisio hybu rhieni i gyd-ddarllen gyda'r plant o'r Meithrin hyd at Blwyddyn 6. Bydd yr ysgol yn darparu bag ysgol i'r plant ddal eu llyfrau yn drefnus a disgwylir i'r plant ddychwelyd eu llyfrau yn ddyddiol. Rydym yn annog y rhieni i gofnodi yn eu llyfrau cofnod.

# Trosglwyddo gwybodaeth i Rieni

## Dosbarthu gwybodaeth

Byddwn yn dosbarthu negeseuon i'r rhieni drwy e-bost. Ond os yr ydych yn dymuno derbyn copi papur mae croeso i chi gael, dim ond i chi adael yr ysgol wybod. Mae gan yr ysgol ffôn symudol a byddwn yn anfon negeseuon rheolaidd at y rhieni yn eu hatgoffa o drefniadau penodol. Os bydd unrhyw newid yn eich manylion cyswllt, gofynnwn i chi gysylltu gyda ni'n syth gyda'ch manylion newydd, os gwelwch yn dda.

## Adrodd ar Ddatblygiad eich plentyn

Bydd cyfarfod rhieni yn cael ei gynnal yn yr ysgol yn fuan yn ystod Tymor yr Hydref ac yn ystod Tymor y Gwanwyn. Bydd noson ychwanegol ar gyfer Blwyddyn 2 a 6 ar ddiwedd Tymor yr Haf. Yma cewch gyfle i drafod cynnydd eich plentyn a chael golwg ar y llyfrau gwaith. Bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno yn ystod Tymor yr Haf ar ddatblygiad a chynnydd eich plentyn yn ystod y flwyddyn.

## Polisi Iaith

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a hefyd, yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelod cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Dylai holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnherthu polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ac yn eu darpariaeth academaidd. Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Edern ac mae'r staff a'r disgyblion yn ymdrechu'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol.

Ni ddylai'r rhai ohonoch sydd â'ch plant yn rhan o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo o dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych yn siarad Cymraeg, er bod llawer o'r rhieni yn dewis dysgu'r iaith, ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, byddwch yn derbyn gohebiaeth dwyieithog o'r ysgol.

## Addysg Feithrin

Sicrheir, drwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi / galluogi i gyrraedd y nôd o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

## Babanod

Adeiladir ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy'r addysg feithrin, cadarnheir a datblygir mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

## Iau

Cadarnheir a datblygir Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod / bod yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i Ysgol Botwnnog. Pan ddaw hwyrddyfodiad i mewn i'r ysgol ym Mlwyddyn 3 h.y. plentyn nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl, yna cynigir cwrs brys o dymor iddynt yn y Ganolfan Hwyrddyfodiad yn Llangybi. Yno bydd y plentyn yn rhan o grwp dysgu bychan a bydd yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ystod y tymor byddant yn dilyn y cwricwlwm ysgol arferol yn ogystal â chael dysgu Cymraeg. Cludir y plant i'r canolfannau yn rhad ac am ddim.

## Siarter Iaith Gwynedd

Ers lansio'r Siarter Iaith Gymraeg yn ysgolion Gwynedd mae llawer o waith wedi digwydd yn ein hysgol yn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Nod y Siarter Iaith yn syml ydi arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. Mae'r Siarter Iaith yn gofyn am gyfraniad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - y cyngor ysgol, y disgyblion, y gweithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn ohoni. Mae rhaglen weithredu wedi ei llunio sydd rhaid i bob ysgol ei phasio. Rydym wedi sicrhau 'Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd' yma yn Ysgol Edern.

## Polisi Codi Tâl

Yn gyffredinol, ni chodir tâl am weithgareddau addysgol ond polisi'r ysgol yw codi tâl am weithgareddau sy'n digwydd y tu allan i oriau'r ysgol neu nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm, megis gwersi offerynnol. Gofynnir am gyfraniad gwirfoddol tuag at gostau fel teithiau addysgol, costau bws i fynd i nofio a thripiau lleol. Gofynnir i rieni dalu am ymweliadau preswyl. Ni chaiff unrhyw blentyn ei atal o unrhyw weithgaredd a gynhelir yn ystod oriau'r ysgol, ar sail amharodrwydd neu anhawster i gyfrannu yn wirfoddol.

## Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae gan addysg cyd-berthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg ein disgyblion ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cyd-berthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae cynnwys mandadol y cod ACRh wedi ei osod o fewn tri llinyn dysgu: cydberthnasau a hunaniaeth, iechyd rhywiol a lles a grymuso diogelwch a pharch. Mae ACRh yn ofyniad mandadol o fewn y Cwricwlwm i Gymru 2022 i bob dysgwr o oedran 3 i 16. Mae'r cod yn nodi nad oes hawl i ddysgwyr gael eu heithrio o unrhyw ran o ACRh.

## Crefydd / Addoli ar y Cyd

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhwy enwad crefyddol. Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasnaethau crefyddol neu astudiaeth cyffelyb. **Mae cyd-addoliad yn digwydd yn ddyddiol yn yr ysgol. Bydd y gwasanaethau hyn yn Gristnogol yn bennaf, ond rhoddir sylw i gredoau eraill o bryd i'w gilydd. Fel rheol, bydd y cydaddoliad yn digwydd yn yr ysgol, ond ar achlysuron arbennig cynhelir ambell i wasanaeth mewn capel neu Eglwys. Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o addoli ar y cyd.**

## Polisi Cyfle Cyfartal

Nod Polisi'r ysgol yw i roi cyfle cyfartal i bob plentyn yn ystod eu gyrfa ysgol beth bynnag yw ei ryw, oed, iaith tras a'i allu. Mae'r polisi yn cadarnhau fod yr ysgol yn meithrin agweddau cymdeithasol cadarnhaol, yn sicrhau profiadau eang ac yn annog cyd-weithio hapus ac adeiladol.

## Polisi Hygyrchedd

Amcan yr ysgol yw sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob plentyn, ac er nad yw'r ysgol yn un ddynodedig ar gyfer disgyblion anabl, fe fyddem yn gwneud pob ymdrech i'w haddasu yn ôl yr angen er mwyn hwyluso mynediad i bob disgybl yn ôl ei anghenion unigol.

## Cydraddoldeb Hiliol

Mae'r ysgol yn chware ei rhan mewn dileu hiliaeth a rhoi gwerth a bri ar amrywiaeth.

# Cwricwlwm i Gymru



## Y Pedwar Diben

Pedwar Diben Cwricwlwm i Gymru ydi canolbwynt cwricwlwm yr ysgol. Rydym yn defnyddio'r dibenion fel sail ar gyfer ein gwaith cynllunio. Bydd ein profiadau dysgu a'n dulliau addysgu yn anelu at wireddu'r dibenion pob amser i wneud yn disgyblion yn:

**ddysgwyr uchelgeisiol a galluog (Urien Gruff)**
mwynhau her a gyda safonau uchel,
cymhwyso gwybodaeth,
datrys problemau,
cyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg,
esbonio syniadau a ddysgir,
defnyddio rhif mewn gwahanol gyd-destunau,
dehongli data a chymhwyso mathemateg,
defnyddio technolegau digidol,
gwerthuso,
ac yn barod i ddysgu.

**ddysgwyr mentrus a chreadigol, (Mared Ceiri)**
creu syniadau a chynnyrch,
meddwl am ffyrdd greadigol o ddatrys problemau,
cymryd mantais o gyfleoedd,
mentro'n bwyllog,
arwain a chyfrannu i dîm,
mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau,
rhoi eu hegni er mwyn i eraill elwa,
chwarae rhan llawn mewn bywyd a gwaith.

**ddysgwyr moesol a gwybodus (Moi Gwyn)**
defnyddio tystiolaeth i lunio barn,
gwybod am faterion cyfoes,
gwybod am hawliau dynol,
deall effaith ein gweithredoedd,
yn wybodus am ddiwylliant a chymuned ddoe a heddiw,
gwybod am anghenion a hawliau pobl eraill,
cynaladwyedd y blaned

**yn ddysgwyr iach a hyderus (Iona Haf)**
gyda gwerthoedd cryf,
datblygu hyder ac empathi,
deall effaith deiet ac ymarfer corff,
cadw'n ddiogel ac iach,
cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol,
hyder i berfformio,
datblygu perthnasau cadarnhaol a pharch at ei gilydd,
goresgyn a gwynebu heriau,
aelod gwerthfawr o gymdeithas

## Cynllunio'r Cwricwlwm

Defnyddir cyfuniad o ddulliau o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol hon yn unol â'r gofyn yn unol ag oedran y dysgwyr a chyd destun y dysgu.

Bydd elfennau o gynllunio ar gyfer addysgu uniongyrchol (Mathemateg a llythrennedd), disgyblaethol, amlddisgyblaethol yn digwydd er mwyn dysgu ac ymarfer sgiliau penodol e.e. sgil mathemateg, ffoneg, ysgrifennu.
Defnyddir elfennau rhyngddisgyblaethol ac integredig er mwyn ymarfer sgiliau ymhellach a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd- destunau trawsgwricwlaidd. E.e. tynnu elfennau o Fathemateg, Iaith, Cymhwysedd Digidol a Dyniaethau at ei gilydd wrth ymchwilio i ac i ysgrifennu adroddiad am bentref Edern.

Cynllunnir y rhan fwyaf o brofiadau dysgu'r ysgol hon ar sail Cwestiwn Mawr ( e.e. Sut beth oedd bod yn blentyn yn Edern gan mlynedd yn ôl?) neu Thema penodol ( e.e. Y Fferm, Estyn Llaw). Mae llais y plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned yn bwysig i ni ac mae hyblygrwydd yn ein cynllunio i ddilyn trywydd gwahanol/lleol/ byd eang fel y bydd cyfle'n codi er mwyn gwneud ein profiadau dysgu yn berthnasol, diddorol ac amserol. Rydym hefyd yn rhoi ffocws mawr am ddysgu am yr ardal leol a Chymru. Dysgu am ein hanes, diwylliant ac arferion yn yr ardal leol ac yn genedlaethol.

Yn yr ysgol yma rydym yn rhoi digon o amser i ddysgwyr feithrin, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwreiddio'r dysgu. Nid ydym yn credu mewn brysio drwy waith er mwyn cael digon o gynnwys a swmp.

O fewn y cwricwlwm mae rhyddid i bob ysgol gynllunio'r cynnwys ei hunain, a hynny yn seiliedig ar:
Y 6 maes dysgu a phrofiad (Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, Dyniaethau, Mathemateg a Rhifedd, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) Datganiadau o'r hyn sydd yn bwysig (27 ohonynt)

Sgiliau traws gwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol)

5 o themâu trawsbynciol
1. hawliau dynol,
2. cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
3. gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â'r byd gwaith
4. amrywiaeth – parchu gwahaniaethau pobl
5. addysg cyd-berthynas a rhywioldeb.

## Cyfrifoldebau Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yma yn Ysgol Edern yn gwreiddio'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol a sgiliau annatod sydd yn sail i bedwar diben y cwricwlwm. Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hanfodol i alluogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben. Mae'r sgiliau trawsgwricwlaidd yma wedi'u gwreiddio a'u datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad, i alluogi dysgwyr i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan a'u defnyddio yn y dyfodol.

## Yr elfennau mandadol

Yma yn Ysgol Edern rydym yn ystyried yn ofalus elfennau mandadol (yr elfennau gorfodol) y Cwricwlwm wrth gynllunio. Yr elfennau hynny yw:
•Crefydd, gwerthoedd a moeseg
•Addysg cydberthynas a rhywioldeb

•Cymraeg
•Saesneg (o 7 oed ymlaen)

## Sgiliau trawsgwricwlaidd

Mae ein disgyblion yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:
•ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu (llythrennedd)
•Ddefnyddio sgiliau rhif a datrys problemau mewn sefyllfaoedd real (rhifedd)
•Fod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau gwahanol (Cymhwysedd digidol)

## Sgiliau cyfannol

Wrth gynllunio ein darpariaeth rydym yn sicrhau fod disgyblion yr ysgol yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel, cyfoethog, eang a chytbwys. Rydym hefyd yn sicrhau bod darpariaeth a'n haddysgu yn canlbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau allweddol, sydd yn hanfodol i gyflawni'r pedwar diben, sef: creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol a sgiliau cynllunio a threfnu.

## Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Prif nod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yw sicrhau fod gwaith rhifedd a llythrennedd addas i oedran a gallu y plentyn yn cael ei blethu i bob pwnc/ maes a dysgir yn yr ysgol. Yn Ysgol Edern 'rydym yn cynllunio i sicrhau bod cyfle i blant ymarfer a datblygu'r sgiliau hyn ar draws yr holl gwricwlwm a thrwy'r ysgol. Rydym yn dysgu'r sgiliau hanfodol yn y gwersi iaith a mathemateg ac yna mae'r plant yn cael ymarfer y sgiliau mewn pynciau eraill.

## Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Nod y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i lwyddo mewn byd cynyddol ddigidol. Yn Ysgol Edern rydym yn cynllunio i sicrhau fod y disgyblion yn cael cyfleoedd niferus i ddatblygu eu sgiliau TGCh yn drawsgwricwlaidd ar draws yr ysgol. Mae 4 llinyn yn perthyn i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol:
Dinasyddiaeth: Hunaniaeth, delwedd ac enw da, Iechyd a lles, Hawliau digidol, trwyddedu a pherchnogaeth, Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio.
Rhyngweithio a chydweithio: Cyfathrebu, Cydweithio, Storio a rhannu.
Cynhyrchu: Cynllunio, cyrchu a chwilio, Creu, Gwerthuso a gwella.
Data a meddwl cyfrifiadurol: Datrys problemau a modelu, Llythrennedd gwybodaeth a data.

## Y Cwricwlwm Cudd

Ar wahân i arbenigedd unigol y staff addysgu, dyma'r peth sy'n bennaf gyfrifol am roi i bob ysgol ei chymeriad ungiol ac unigryw ei hun. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm na ellir ei osod o dan benawdau - yr athroniaeth y tu cefn i'r dysgu ac ysgogiadau'r staff, ynglyn â'r ffordd y mae polisiau'r ysgol yn ystyried natur y gymdeithas a wasanaethir ganddi - dyna sy'n rhoi i ysgol ei chymeriad ei hun.

Yn Ysgol Edern rydym yn ymdrechu i gynnig amrywiaeth eang o brofiadau er mwyn ysgogi anghenion gwahanol bob plentyn. Rydym yn sylweddoli fod disgyblion i gyd yn wahanol i'w gilydd a bod ganddynt yr hawl i lwyddo mewn gwahanol ffyrdd. Nid pawb sy'n llwyddo'n academaidd ac felly rydym yn gweld pwysigrwydd mewn rhoi amrywiaeth o brofiadau er mwyn dangos a datblygu eu doniau tu allan i furiau'r dosbarth. Rydym yn arwain y plant i allu datrys problemau'n greadigol a defnyddio'u sgiliau wrth ddatblygu'n ddinasyddion y dyfodol.

## ASESU

Rydym yn defnyddio'r Disgrifiadau Dysgu ar gyfer bob Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cyfateb yn fras i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 a 16 ac yn cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob Datganiad. Ni ddefnyddir y rhain fel rhestr o flychau i'w ticio, ond yn hytrach fel arfau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cynnydd ein dysgwyr. Yn ychwanegol at hyn, mae egwyddorion cynnydd sy'n sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau mai cynnydd dysgwyr yw prif bwrpas Asesu ac nid ymarfer atebolrwydd. I'r perwyl hyn, rydym ni yn Ysgol Edern yn rhoi bri ar ddatblygu darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr yr ysgol a'r clwstwr ac ar drafodaethau rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant.

## Ysgol Iach

Mae Ysgol Edern yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac wedi llwyddo i basio Cam 5 o'r Cynllun. Rydym felly yn gweithio ar y Marc Ansawdd yn Ysgol Edern erbyn hyn. Mae'r Cynllun yn galluogi'r ysgol i gyfrannu'n bositif tuag at Iechyd a Lles y disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu'r amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

## Ysgol Werdd

Mae'r ysgol wedi ennill y wobr arian. Rydym yn ailgylchu papur, cardfwrdd, plastig a dillad yn yr ysgol ac yn defnyddio'r ardd i blanu llysiau a ffrwythau amrywiol.

## Yr Urdd

Mae gan yr ysgol gangen yr Urdd a byddwn yn cystadlu yn yr Eisteddfod yn flynyddol yn canu, llefaru, perfformio mewn ymgom, ysgrifennu ac yn yr Adran Gelf. Byddwn hefyd yn cystadlu yn y cystadlaethau chwaraeon.

## Teithiau Preswyl

Bydd yr ysgol yn trefnu tripiau preswyl i'r plant yn flynyddol o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 6. Byddwn yn cyd-weithio gyda ysgolion eraill cyfagos er mwyn i'r plant ddod i adnabod a chymdeithasu gyda'u cyfoedion o'r un oed yn yr ardal. Byddwn yn codi tâl am yr ymweliadau yma.

## Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth

Fyd Eang Bydd y plant yn datblygu'r sgiliau, gwybodaeth, agweddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd-eang a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.

## Addysg Gorfforol / Chwaraeon

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd sy'n symbyliad ac yn ddiogel i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol wrth ddatblygu sgiliau corfforol. Darperir gweithgareddau sy'n rhoi mwynhad i'r disgyblion wrth ddiwallu eu hanghenion creadigol. Bydd yr ysgol yn cymeradwyo ac yn hybu diddordeb y plant mewn chwaraeon o bob math fel rhan o'u datblygiad cymdeithasol a chorfforol. Mae'r cynlluniau yn cynnwys agweddau o chwaraeon goresgyn - gemau tîm, gymnasteg, dawns a nofio.

Trefnir cwrs o wersi nofio ym mhwll nofio Pwllheli i'r holl ysgol yn ystod y flwyddyn. Teimlir fod cyfnodau fel hyn yn ddull mwy llwyddiannus o gael y plant i nofio. Mae gennym iard a chae helaeth ar gyfer rhai gweithgareddau amser chwarae hefyd.

## SUT Y GALLAF HELPU I HYBU ADDYSG FY MHLENTYN?

Gosodir rhai canllawiau yma ynglyn â'r math o bethau yn fras y gall rhiant ddysgu i blant i'w galluogi i roi cymorth ychwanegol i'w plentyn yn yr ysgol.

| |
|---|
| **Meithrin**<br>*Dysgu lliwiau *Gafael mewn pensel yn gywir *Cyfri i 10 *Gwneud lluniau *Lliwio yn daclus *Sgwrsio am ddigwyddiadau'r dydd *Adnabod rhai llythrennau a rhifau *Darllen iddynt yn rheolaidd |
| **Dosbarth Derbyn**<br>*Adnabod llythrennau a rhifau *Ysgrifennu llythrennau a rhifau *Cyfrif at 20 *Darllen geiriau syml a llyfrau *Ysgrifennu geiriau a brawdegau syml *Cyfri fesul 10 |
| **Blwyddyn 1 a 2**<br>*Gwybod tablau 2,5 a 10 *Sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg *Adio a thynnu yn eu pen at 20 *Ysgrifennu brawddegau *Dweud yr amser (o leiaf ar yr awr, hanner awr wedi a chwarter wedi) *Cyfri hyd at 100 a mwy |
| **Blwyddyn 3 a 4**<br>*Gwybod tablau 2,3,4,5, 6 a 10 o leiaf *Dweud yr amser ar gloc analog, defnyddio arian. *Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - llythyrau, storiau *Trafod a sgwrsio gan fynegi barn yn synhwyrol yn y ddwy iaith. |
| **Blwyddyn 5 a 6**<br>*Gwybod tablau i gyd at 10 erbyn Nadolig Blwyddyn 5 *Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - storiau, llythryau, ayyb heb fawr o gamgymeriadau sillafu - storiau - tua ochr A4 mewn 45 munud-awr *Trafod a sgwrsio yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio iaith gywir geirfa dda a mynegi barn a safbwynt yn glir. |

## Darpariaeth ar gyfer Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yn Ysgol Edern mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn ac ymdrinnir â'i anghenion yn sensitif ac yn effeithiol. Credwn fod pob plentyn yn derbyn cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol gan sicrhau bod hunan-barch a hyder yn cael eu cyfoethogi a bod agwedd gadarnhaol yn cael ei datblygu.

Mae Ysgol Edern wedi ymrwymo i gynhwysiad llwyddiannus disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ein hysgol, mae pob athro yn athro ar bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY.

Yn Ysgol Edern, mae pob plentyn yn gyfartal, yn cael ei werthfawrogi ac yn unigryw. Ein nod yw darparu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffynnu. Byddwn yn ymateb i unigolion mewn ffyrdd sy'n cymryd eu profiadau bywyd amrywiol a'u hanghenion penodol i ystyriaeth.

Mae Ysgol Edern wedi ymrwymo i ddarparu addysg sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd fel ei fod yn cyflawni hyd eithaf ei allu, yn dod yn unigolion hyderus sy'n byw bywyd llawn ac yn pontio'n llwyddiannus i fyd oedolion.

## Amcanion

Ein amcanion fel ysgol yw:

- Datblygu darpariaeth ADY ysgol gyfan effeithiol ac eu hadolygu'n barhaus.
- Sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol – gan gynnwys cwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol.
- I adnabod ac i fonitro anghenion unigol ein disgyblion cyn gynted â phosib er mwyn i ni allu darparu ar eu cyfer a chodi eu cyrhaeddiad o fewn eu gallu.
- I gynllunio cwricwlwm effeithiol i gwrdd ag anghenion ychwanegol ein disgyblion a, lle'n addas, i sicrhau bod targedau'r Proffil Un Dudalen neu'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn benodol, yn fesuradwy, o fewn gallu'r unigolyn.
- Sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog. Ystyried barn, dymuniadau a theimladau disgyblion trwy ddulliau cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cydweithio gyda a sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael cyfle i ymgysylltu'n llawn yn y broses o wneud penderfyniadau.
- I sicrhau bod pawb sydd ynghlwm â'n disgyblion yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i adnabod eu hanghenion yn ogystal â'r strategaethau i'w cefnogi ac i'w dysgu'n effeithiol.
- I gydweithio'n agos, lle'n briodol, gydag asiantaethau allanol i gefnogi anghenion a darpariaeth disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- I ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag ADY trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog. Mae'r ysgol yn gweithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Gweler Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Polisi Iaith Ysgolion. Rhoi cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i'r holl staff sy'n gweithio gyda disgyblion sydd ag ADY

## Polisi Anghenion Dysgu Ychwangeol Ysgol Edern

Gellir gofyn am gopi o'r polisi llawn gan yr ysgol.

Cyd lynydd Anghenion Dysgu Ychwangeol yr ysgol yw: Mrs Sioned Tudor

## Cefnogi a Hyrwyddo Cyflawniad Plant mewn Gofal

Mae gan bob plentyn sydd mewn gofal yr hawl i addysg ac i dderbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol. Bydd yr ysgol yn gwneud y canlynol er mwyn cefnogi a hyrwyddo cyflawniad y disgyblion:

- sicrhau bod aelod o staff wedi'i benodi i ymgymryd â chyfrifoldeb penodol ar gyfer disgyblion yng ngofal yr Awdurdod Lleol (y Pennaeth);
- sicrhau ein bod yn monitro absenoldeb disgyblion sydd yng ngofal yr Awdurdod Lleol, a chyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Addysg;
- sicrhau amgylchedd ac ethos cadarnhaol;
- bod yn ymwybodol o'r sensitifrwydd sydd o gwmpas gwahardd disgybl sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, gan gydnabod yr angen i'r plant hynny dderbyn addysg barhaus;
- sicrhau bod gan pob disgybl Gynllun Addysg Personol (CAP). Cyfrifoldeb yr ysgol, ar ôl ymgynghori â rhieni, gwarcheidwaid ac asiantaethau priodol, yw paratoi y CAP. Dylid cytuno ar y CAP cyn gynted ag y bo modd, ac o fewn 20 diwrnod ar y mwyaf i'r plentyn fynd i ofal neu i ysgol newydd;
- sicrhau bod unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd gan blentyn mewn gofal yn cael eu diwallu

## Beth allwch chi rieni a gofalwyr ei wneud i gefnogi eich plentyn pan yn cychwyn yn y Dosbarth Meithrin?

Ceisiwch wneud yn fawr o bob cyfle i gefnogi eich plentyn er mwyn cyfoethogi ei brofiadau/phrofiadau:

- Mae'n holl bwysig eich bod yn sgwrsio â'ch plentyn, nid yn unig am y diwrnod ysgol, ond am ddigwyddiadau eraill o bwys hefyd.
- Ni ellir gorbwysleisio yr angen i chwi ddarllen a chwarae pob math o gemau iaith â'ch plentyn, e.e. 'Mi wela i gyda fy llygaid bach i'.
- Nid oes angen gwneud gwaith ffurfiol ond helpu ymwybyddiaeth plentyn o rif trwy ddysgu rhigymau syml iddo ef/hi a chyfeirio at rif yn yr amgychledd.
- Helpwch eich plentyn i gyflawni tasgau fel gwisgo, clymu carrai esgid, mynd i'r toiled (mae angen i'r plentyn fod allan o glytiau cyn cychwyn ysgol) defnyddio cyllell a fforc a thacluso.
- Datblygwch weithgareddau sy'n hybu sgwrs a hunan hyder.
- Helpwch eich plentyn i ddod yn gyfarwydd â siap ei enw/ henw.
- Peidiwch â defnyddio prif lythrennau e.e. helpu nid HELPU. Edrychwn ymlaen yn Ysgol Edern i gydweithio â chi ac i anelu i roi addysg o'r safon orau i'ch plentyn.

Diolch yn fawr,

**Mr Ilan Williams**
(Pennaeth)



Yma’n Ysgol Edern Ysgogw … Had

01758 720272 ilan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru ysgoledern.org